

## PHILLIPS, ELIZABETH (fl. 1836), emynydd

**Enw:** Elizabeth Phillips  
**Plentyn:** Thomas Hughes  
**Rhyw:** Benyw  
**Galwedigaeth:** emynydd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth; Crefydd  
**Awdur:** Thomas Isfryn Jones

o'r Penrhyn, Conwy, Sir Gaernarfon; awdur 25 o emynau a ddarganfuwyd gan [Richard Griffith](#) ('Carneddog') ymhlith llawysgrifau [Robert Isaac Jones](#) ('Alltud Eifion'). Copïodd '[Carneddog](#)' yr emynau a chyhoeddwyd hwynt am y tro cyntaf yn *Cymru (O.M.E.)*, 1906. Mewn nodyn ar y llawysgrif yn llaw '[Alltud Eifion](#)' dywedir fod Elizabeth Phillips yn fam i Dr. Thomas Hughes (1793 - 1837), meddyg, Plasward, Pwllheli, tad Elizabeth, gwraig gyntaf '[Alltud Eifion](#)'.

### Awdur

Thomas Isfryn Jones

### Ffynonellau

*Cymru (O.M.E.)*, 1906

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732991](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

